# Dilyniant Sgiliau Darllen Cymraeg Blwyddyn 3

Dylid addysgu dysgwyr i ddatblygu eu gwybodaeth, dealltwriaeth a'u sgiliau trwy **addysgu eglur** a **gweithgareddau cyd-destunol:**

**Lleoli, dethol a defnyddio gwybodaeth ac ymateb i'r hyn a ddarllenwyd:**

- Darllen yn uchel gyda mynegiant a chanolbwyntio ar ddefnydd atalnodi i gefnogi mynegiant
- Adnabod y can gair amledd uchel cyntaf
- Defnyddio ystod o strategaethau dadgodio, e.e. ffoneg, gwreiddiau geiriau, teuluoedd geiriau, cystrawen, gwybodaeth flaenorol o gyd-destun a'r math o destun
- Ymarferion darllen a deall – dod o hyd i atebion llythrennol o'r testunau
- Adnabod pynciau, prif syniadau a gwybodaeth allweddol a defnyddio gwybodaeth yn eu gwaith eu hunain
- Adnabod gwahanol bwrpasau testunau a sut maent yn cael eu trefnu
- Dechrau dod o hyd i ystyr sydd ymhlyg yn y testun
- Dechrau cael syniadau a gwybodaeth trwy gysylltu datganiadau, e.e. achos ac effaith
- Dechrau dod yn ddarllenwyr myfyriol gan fynegi barn ar ddeunydd darllen a chynnig rhai rhesymau wrth gyfiawnhau barn
- Gwrando yn ofalus ar eiriau, ymadroddion, brawddegau a thestunau sy'n cael eu darllen
- Dechrau dadansoddi testun
- Ystyried pa mor dda mae'r testun wedi ei gyflwyno
- Cymryd diddordeb mewn deunydd y tu hwnt i'w profiad personol

**Darllen i gael gwybodaeth**

- Deall a defnyddio trefn y Wyddor
- Defnyddio geiriadur
- Edrych ar wybodaeth benodol, h.y. defnyddio cynnwys, mynegai, rhestrau termau a geiriaduron
- Adnabod sut mae testunau yn cael eu trefnu
- Darllen testunau gwybodaeth byr yn annibynnol a chanolbwyntio ar y darn
- Dechrau cynhyrchu cwestiynau i'w hymchwilio
- Dweud neu ysgrifennu pa bethau newydd a ddysgwyd
- Dweud neu ysgrifennu pa ffeithiau oedd fwyaf diddorol
- Adnabod a deall pwrpas testunau, e.e. ydy'r testun yn ceisio eich perswadio i wneud rhywbeth, cyfarwyddiadau, cynlluniau, *etc*
- Dechrau egluro canfyddiadau
- Defnyddio peiriannau chwilio i ddod o hyd i wybodaeth benodol trwy adnabod geiriau neu ymadroddion allweddol i'w cynnwys ar gyfer ymchwil effeithiol
- Lleoli gwybodaeth ar dudalennau gwe gan ddefnyddio nodweddion sgrin, e.e. bar offer, bar ochr, penawdau, saethau

**Darllen ffuglen**

- Dweud beth mae'r broliant yn ei ddweud wrthynt am y stori
- Rhoi barn am y stori
- Dealltwriaeth gasgliadol, e.e.  Beth all ddigwydd nesaf? Sut rydych chi'n meddwl mae'r cymeriad yn teimlo pan…?  Pam dywedodd y cymeriad …?
- Ymatebion personol, e.e. Beth byddech chi wedi ei wneud pe bai ?, Ydych chi erioed wedi…?
- Mynegi hoffter
- Gwneud rhagfynegiadau
- Siarad am lyfrau gan yr un awdur

# Dilyniant Sgiliau Darllen Cymraeg Blwyddyn 4

Dylid addysgu plant i ddatblygu eu gwybodaeth, dealltwriaeth a'u sgiliau trwy **addysgu eglur** a **gweithgareddau cyd-destunol:**

**Lleoli, dethol a defnyddio gwybodaeth ac ymateb i'r hyn a ddarllenwyd:**

- Darllen yn uchel gyda mynegiant a goslef gan ddatblygu eu gallu i ganolbwyntio, eu hyder a'u gallu i adnabod ystod gynyddol o eiriau cyfarwydd
- Cynyddu eu defnydd o ystod o strategaethau datgodio, e.e. trwy ddarnio geiriau lluosill mwy cymhleth
- Defnyddio cyd-destun cystrawennol a gwybodaeth flaenorol o gyd-destun a math o destun
- Adnabod yn gywir y prif syniadau a gwybodaeth allweddol o destunau a defnyddio'r wybodaeth yn eu gwaith eu hunain
- Dechrau tynnu gwybodaeth o destun i gefnogi atebion
- Datblygu dealltwriaeth o gasgliad mewn testunau
- Dechrau dod i gasgliad am gynnwys y testun
- Datblygu sgiliau llithr ddarllen
- Datblygu sgiliau cip ddarllen ar gyfer casglu gwybodaeth benodol, defnyddio nodwed-dion megis cynnwys, mynegai, diagramau wedi eu labelu a rhestr termau
- Dechau dewis geiriau sy'n creu effaith mewn testun
- Parhau i ddatgysylltu testun er mwyn ei ddadansoddi
- Adnabod gwahanol fathau o destunau gan eu strwythuro o ran geirfa, cynnwys, diwyg a phwrpas
- Creu cysylltiadau rhwng gwahanol ddarnau o wybodaeth, e.e. dilyniant, pwysigrwydd
- Dethol manylion a thystiolaeth o'r testunau i adnabod patrymau a dod i gasgliadau
- Defnyddio tystiolaeth yn eu hysgrifennu gan ystyried a yw'r testun yn effeithiol ai peidio i gyfleu syniadau a gwybodaeth
- Dethol manylion a thystiolaeth o'r testunau i'w defnyddio yn eu hysgrifennu eu hunain

**Darllen er gwybodaeth**

- Datblygu eu gwybodaeth o drefn y Wyddor
- Datblygu eu hyder i ddefnyddio geiriadur yn rheolaidd
- Dechrau defnyddio thesawrws
- Defnyddio tudalen cynnwys, rhestr termau a mynegai
- Cynhyrchu cwestiynau i'w hymchwilio
- Ehangu a datblygu'r defnydd o beiriannau chwilio i ddod o hyd i wybodaeth benodol
- Egluro pam mae ffeithiau newydd a ddysgwyd yn ddiddorol
- Canfod agwedd yr ysgrifennwr at y testun
- Deall pwrpas, e.e. A yw'r testun yn ceisio eich perswadio i wneud rhywbeth?
- Cael gwybodaeth o dudalennau gwe, defnyddio hypergysylltiadau, chwiliadau geiriau, *etc* ac asesu'r dulliau mwyaf effeithiol

**Darllen ffuglen**

- Cymharu broliant storïau
- Rhoi barn ar storïau/nofelau/barddoniaeth gyda rhywfaint o gyfiawnhad
- Datblygu dealltwriaeth gasgliadol, e.e. datblygu dealltwriaeth o gymeriadau a'r rhyngweithio sydd rhyngddynt
- Rhoi ymatebion personol (arfarniadol) ar rannau o'r testun a thestunau cyfan a ddar-llenwyd
- Mynegi hoffter trwy ddechrau cyfeirio at dystiolaeth mewn testunau
- Dechrau siarad am arddull ysgrifennu mewn llyfrau gan yr un awdur
- Adnabod agwedd yr ysgrifennwr at y testun
- Ail adrodd digwyddiadau o stori gyda pheth hyder
- Datblygu'r gallu i ragfynegi digwyddiadau

# Dilyniant Sgiliau Darllen Cymraeg Blwyddyn 5

Dylid addysgu plant i ddatblygu eu gwybodaeth, dealltwriaeth a'u sgiliau trwy **addysgu eglur** a **gweithgareddau cyd-destunol:**

**Lleoli, dethol a defnyddio gwybodaeth ac ymateb i'r hyn a ddarllenwyd:**

- Darllen nifer o destunau yn gywir â rhuglder, goslef a chyflymder cynyddol
- Cynyddu'r defnydd o ystod o strategaethau dadgodio gan gynnwys gwybodaeth o ffoneg, gwreiddiau a theuluoedd geiriau
- Darllen testunau estynedig yn annibynnol yn gyson
- Adnabod rôl atalnodi o fewn strwythur brawddeg a sut mae ystyr yn cael ei chyfleu mewn brawddegau cymhleth
- Ymarferion darllen a deall gan ddod o hyd i atebion perthnasol o fewn testun gyda hyder cynyddol
- Tynnu gwybodaeth o destun i gefnogi eu hatebion
- Dethol gwybodaeth o destun a gwneud casgliadau gyda hyder cynyddol
- Defnyddio sgiliau llithr ddarllen i ddod o hyd i eiriau ac ymadroddion allweddol, prif syniadau a themâu
- Cip ddarllen i ddod o hyd i fanylion penodol, e.e. is-benawdau, diagramau
- Dewis geiriau ac ymadroddion sy'n creu effaith mewn testun
- Adnabod sut mae'r ysgrifennwr yn bachu sylw'r darllenydd ac yn ymdrin â'r syniadau a gwybodaeth o ddiddordeb
- Dangos hyder wrth ganfod safbwynt a bwriadau'r ysgrifennwr
- Gwrando ar farn pobl eraill ar ddeunydd llenyddol ac anllenyddol gan fynegi barn gyda chyfiawnhad
- Adnabod nodweddion testun
- Adnabod nodweddion mewn testun a fwriedir i berswadio, e.e. dewis o eiriau, gorliwio, *etc*
- Gwahaniaethu rhwng ffaith a barn
- Tynnu a chasglu gwybodaeth o fwy nag un ffynhonnell gan ddod i gasgliadau
- Datblygu'r gallu i ddatgysylltu testun, ei ddadansoddi ac ystyried a yw'r cynnwys yn ddibynadwy

**Darllen er gwybodaeth**

- Defnyddio gwybodaeth o drefn y wyddor yn rheolaidd ar gyfer ymchwil
- Defnyddio geiriadur a thesawrws yn rheolaidd a hyderus
- Defnyddio tudalen cynnwys, rhestr termau a mynegai yn annibynnol
- Cymharu strwythur y testunau y bwriedir eu trafod neu eu perswadio
- Cynhyrchu rhestr o gwestiynau caeedig a chwestiynau agored i'w hymchwilio gan adnabod y gwahaniaeth rhwng y ddau
- Dechrau categoreiddio/blaenoriaethu ffeithiau a ddysgwyd, gan ddangos dealltwriaeth o'r prif bwyntiau
- Cymharu gwahanol safbwyntiau ysgrifenwyr
- Deall a defnyddio ystod gynyddol o destunau anllenyddol
- Dysgu technegau effeithiol i leihau'r chwilio ar y rhyngrwyd
- Defnyddio gwybodaeth o ffynonellau dibynadwy, ar sgrin ac ar bapur, gan ddethol a lawrlwytho fel bo angen

**Darllen Ffuglen**

- Mynegi barn am effeithiolrwydd broliant stori
- Dechrau dod o hyd i dystiolaeth i gymharu cymeriadau ar wahanol gyfnodau yn y stori
- Dod o hyd i gliwiau yn y testun am gymeriadau a'u cymhelliad
- Ymestyn ymatebion personol (arfarniadol)
- Mynegi hoff a chas bethau trwy gyfeirio at dystiolaeth yn y testun
- Siarad am arddull ysgrifennu awdur penodol gan gyfeirio at amrywiol lyfrau gan yr awdur
- Ail adrodd digwyddiadau o stori yn hyderus

# Dilyniant Sgiliau Darllen Cymraeg Blwyddyn 6

Dylid addysgu plant i ddatblygu eu gwybodaeth, dealltwriaeth a'u sgiliau trwy **addysgu eglur** a **gweithgareddau cyd-destunol:**

**Lleoli, dethol a defnyddio gwybodaeth ac ymateb i'r hyn a ddarllenwyd:**

- Darllen ystod eang o destunau yn gywir â rhuglder, goslef a chyflymder addas
- Darllen testunau cymhleth yn annibynnol am gyfnodau cyson
- Darllen yn ofalus gan anodi'n bwrpasol
- Defnyddio ystod o strategaethau dadgodio, e.e. mwy o eiriau lluosill cymhleth
- Ymarferion darllen a deall – dod o hyd i atebion perthnasol o'r testun yn hyderus
- Dethol geiriau, ymadroddion, brawddegau a gwybodaeth berthnasol o'r testun i gefnogi safbwyntiau
- Dod i gasgliad a thynnu gwybodaeth berthnasol o destun
- Defnyddio sgiliau cip ddarllen a llithr ddarllen yn gyflym ac yn effeithiol
- Egluro pam mae rhai geiriau ac ymadroddion yn creu effaith mewn testun
- Adnabod sut mae'r ysgrifennwr yn bachu'r darllenydd ac yn gadael argraff barhaol
- Trafod safbwynt a bwriadau'r ysgrifennwr a phenderfynu pa rai yw'r mwyaf credadwy a rhesymegol
- Canfod sut mae dadleuon effeithiol yn cael eu llunio
- Ystyried barn eraill ar ddeunydd llenyddol ac anllenyddol a chynnig eu barn eu hunain gyda chyfiawnhad
- Gwahaniaethu rhwng rhagfarn a safbwynt gwrthrychol
- Tynnu a chasglu gwybodaeth o wahanol ffynonellau
- Defnyddio geiriadur a thesawrws yn hyderus trwy'r amser
- Arfarnu testun, ei gynnwys, cyflwyniad a'i apêl
- Adnabod syniadau a gwybodaeth sy'n ennyn diddordeb a datblygu dealltwriaeth ehangach a dyfnach

**Darllen er gwybodaeth**

- Defnyddio ystod o strategaethau i ddarganfod gwybodaeth briodol gan gynnwys TGCh, e.e. yr wyddor, mynegai a chatalogau
- Cynhyrchu rhestr o gwestiynau caeedig a chwestiynau agored i'w hymchwilio gan adnabod y gwahaniaeth rhwng y ddau
- Gwahaniaethu rhwng y prif syniadau a syniadau cefnogol gan ddethol pwyntiau hanfodol a manylion arwyddocaol
- Categoreiddio/blaenoriaethu ffeithiau newydd a ddysgwyd
- Deall a defnyddio ystod eang o destunau nad ydynt yn rhai llenyddol
- Asesu ansawdd a dibynadwyedd gwybodaeth ar dudalennau gwe, ystyried ei darddiad a gwirio cywirdeb

**Darllen Ffuglen**

- Adnabod nodweddion, themâu a chymeriadau allweddol
- Dod o hyd i dystiolaeth er mwyn trafod cymeriadau yn y stori
- Adnabod y gwahaniaethau rhwng Cymraeg safonol a Chymraeg lafar, dafodieithol
- Ystyried sut mae testunau yn newid pan maent yn cael eu haddasu ar gyfer gwahanol gyfryngau a chynulleidfaoedd eraill